Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD LLUN, 15FED RHAGFYR, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting

Pwynt Cyswllt

Sera Jane Whitley

serajanewhitley@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 05/12/2025)

IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Dafydd Rhys Thomas	Cyngor Sir Ynys Môn
Craig ab Iago	Cyngor Gwynedd
Goronwy Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Barry Mellor	Cyngor Sir Ddinbych
Glyn Banks	Cyngor Sir y Fflint
David Bithell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

Angela Jones	Parc Cenedlaethol Eryri
Henry Bradshaw	Trafnidiaeth Cymru

Swyddogion Cyswllt Cynghorau Cyfansoddol

Huw Percy	Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Wyn Williams	Cyngor Gwynedd
Geraint Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Emlyn Jones	Cyngor Sir Ddinbych
Katie Wilby	Cyngor Sir y Fflint
Darren Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Swyddogion yn bresennol

Alwen Williams	Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd
Iwan Evans	Swyddog Monitro
Claire Incledon	Dirprwy Swyddog Monitro
Dewi Morgan	Prif Swyddog Cyllid
David Hole	Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2025 fel rhai cywir.

5. CYFLWYNIAD: MASNACHFREINIO BYSIAU

Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno.

6. CYFLWYNIAD: RHWYDWAITH GOGLEDD CYMRU

Rhwydwaith Gogledd Cymru i gyflwyno.

7. CYFLWYNIAD: PANELI YMGYNGHOROL RHWYDWAITH-T

Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno.

8. CYLCH GORCHWYL AR GYFER YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL 10 - 13

Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro) i gyflwyno'r adroddiad.

9. ADOLYGIAD HUNANASESU BLYNYDDOL YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL 14 - 16

Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro) i gyflwyno'r adroddiad.

10. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL - COFRESTR YMRWYMIADAU 17 - 25

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD
06/10/2025

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr:
Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Craig ab Iago (Cyngor Gwynedd), Mike Priestley (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych), Glyn Banks (Cyngor Sir y Fflint) a David Bithell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais):
Angela Jones (Parc Cenedlaethol Eryri) a Henry Bradshaw (Trafnidiaeth Cymru)

Swyddogion Cyswllt Cynghorau Cyfansoddol:
Huw Percy (Cyngor Sir Ynys Môn), Gerwyn Jones (Cyngor Gwynedd), Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Katie Wilby (Cyngor Sir y Fflint) a Darren Williams a Gwen Thomas (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Swyddogion yn bresennol:
Alwen Williams (Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), David Hole (Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth), Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd David Bithell yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor hwn ar gyfer 2025-26.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Glyn Banks yn Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor hwn ar gyfer 2025-26.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd) gyda Gerwyn Jones yn dirprwyo
- Iwan Evans (Swyddog Monitro)

Croesawyd y Cynghorydd Michael Priestley i'w gyfarfod cyntaf o'r Is-bwyllgor. Nodwyd bydd swyddogion yn dod i gyswllt gydag o a'r wyddog arweiniol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn briffio'r Aelod ar faterion sydd yn gysylltiedig â gwaith yr Is-bwyllgor hwn, cyn y cyfarfod nesaf.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2025 fel rhai cywir.

7. ADRODDIAD CHWARTEROL YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Brif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd y Gogledd a'r Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

PENDERFYNWYD

Ystyried yr adroddiad gan ychwanegu pryderon ynghylch â Pont Grog y Fenai yn Sir Ynys Môn yn cau dros dro.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor ar 1 Hydref 2024. Ystyriwyd ei bod yn briodol adolygu cynnydd yn y gwaith sydd yn cael ei weithredu gan sicrhau bod yr adnoddau cywir yn eu lle i ddiwallu datblygiadau yn y dyfodol.

TRAFODAETH

Atgoffwyd yr aelodau fod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol bellach wedi'i sefydlu ers blwyddyn, a bod eu Cylch Gorchwyl yn nodi ymrwymiad i baratoi adroddiad chwarterol ar eu gwaith ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC).

Eglurwyd bod yr adroddiad chwarterol yn rhoi trosolwg strategol ar cynnydd, cyflawniadau allweddol, ac yn amlygu ar feysydd sydd angen sylw. Ymhelaethwyd mai pwrpas yr adroddiad yw hysbysu aelodau am faterion allweddol, a phenderfynu a oes unrhyw faterion ymae'r Is-bwyllgor yn dymuno eu huwchgyfeirio i'r CBC.

Tynnwyd sylw at gynnydd sylweddol a gyflawnwyd yn enwedig wrth baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft a'i Gynllun Cyflawni cysylltiedig, yn ogystal â'r Ymarfer Ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng Ionawr ac Ebrill 2025. Arweiniodd y gwaith hwn at gyflwyno'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2025. Diolchwyd i'r aelodau, swyddogion, a rhanddeiliaid am eu gwaith wrth baratoi'r drafft hwn.

Nodwyd bod yr adroddiad bellach yn ystyried y cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh), a oedd yn gyfnod o 12 wythnos a daeth i ben ym mis Ebrill 2025. Cyflwynwyd yr adroddiad yn flaenorol yn yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a'r CBC. Ymhelaethwyd bod bron i 1,700 o ymatebion wedi'u derbyn; o'r rhain, roedd dros 1,400 yn ymwneud ag ymgyrchoedd gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ynglyn â geiriad dyhead a oedd yn ystyried yr A55 yn Sir y Fflint. O ganlyniad, addaswyd y geiriad yn dilyn cyfnod ymgynghori. Bu trafodaethau rhwng Uchelgais Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru hefyd, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn yr atodiadau er gwybodaeth.

Cyflwynwyd pwyntiau allweddol eraill yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys: y Broses 'Moderneiddio Grantiau', sef prosiect Llywodraeth Cymru; amserlenni a sut mae cynlluniau trafnidiaeth drafft yn cael eu datblygu; a mentergarwch gan partneriaid, un enwedig Rhwydwaith Gogledd Cymru, sef gweledigaeth buddsoddiad Llywodraeth Cymru, sy'n gyfwerth â biliynau o bunnoedd ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth integredig, amledd uchel ar gyfer y rhanbarth.

Mewn ymateb i ymholiad, cytunwyd y byddai cyflwyniad ar Rhwydwaith Gogledd Cymru o fudd ar gyfer cynlluniau gwaith yn y dyfydol er mwyn nodi'r dyheadau ar gyfer y tair i bedair blynedd nesaf. Nodwyd y byddai hyn yn dangos y cydymffurfiaeth rhwng y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbathol â dyheadu a chynlluniau Rhwydwaith Gogledd Cymru.

Gofynnwyd hefyd y byddai diweddaraid ar Fasnachfreinio Bysiau yn cael ei werthfawrogi, yn enwedig gan fod llawer o bryderon wedi'u nodi o'r blaen ynglyn â'r mater hwn.

Tynnwyd sylw at yr angen i fod yn ymwybodol o'r amrywiadau rhwng siroedd wrth ystyried masnachfreinio bysiau, yn enwedig yr heriau o sefydlu a sicrhau gwasanaeth dibynadwy ar gyfer cymunedau gwledig. Nodwyd bod ymgynghoriad ar y gweill gan Drafnidiaeth Cymru ar fapiau rhwydwaith ar hyn o bryd a'i bod yn bwysig iawn i'r awdurdodau rhanbarthol gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn.

Cwestiynwyd a allai'r CBC gydweithio â GanBwyll, gan y nodwyd bod rhai o'r awdurdodau lleol eisoes wedi mewn mewn cysylltiad â GanBwyll ynghylch â'r ddeddfwriaeth 20mya. Cadarnhawyd bod y CBC eisoes wedi cael gwahoddiad i ymgysylltu â GanBwyll, ac y byddai'r Uwch Swyddog Trafnidiaeth yn arwain ar hyn ar lefel rhanbarthol.

Argymhellwyd y byddai pryderon ynghylch cau Pont Menai dros dro yn dilyn Storm Amy yn cael eu cynnwys yn yr argymhelliad i'r CBC.

8. DATBLYGU'R RHAGLEN RTP AR GYFER 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Brif Weithredwr CBC y Gogledd a'r Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan gefnogi'r cysyniad o adolygu dyraniadau cyfalaf.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyflwynwyd yr adroddiad at ddibenion gwybodaeth.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar y broses ac amserlenni ar gyfer rhaglen ddatblygol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer 2026/27, ar gyfer sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn amserol.

Manylwyd bod proses 'Moderneiddio Grantiau' Llywodraeth Cymru yn cyfuno ffrydiau cyllido sydd wedi bod ar gael i Awdurdodau Lleol. Nodwyd y bydd Cronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei ddatblygu i'r dyfodol, a fydd yn gyfuniad o'r holl ffrydiau cyllido isod:

- Cronfa Trafnidiaeth Leol
- Cronfa Ffyrdd Gwydn

- Cronfa Teithio Lesol
- Cronfa Diogelwch ar y Ffyrdd (Refeniw)
- Cronfa Diogelwch ar y Ffyrdd (Cyfalaf)
- Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau
- Cronfa ffyrdd heb eu mabwysiadu
- Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.

Ymhelaethwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliad ar Gydbwyllgorau Corfforedig i gydlynu'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys datblygu rhaglen o gynlluniau bydd yn cael eu cyflawni dros y flwyddyn ariannol ddilynol.

Adroddwyd bod manylion y cynlluniau bydd yn cael eu hariannu yn y flwyddyn ariannol 2026/27 wedi cael eu nodi o fewn Cynllun Cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gan ychwanegu bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn caniatáu i gynlluniau ychwanegol gael eu hariannu drwy Raglen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ddarostyngedig i'r cynlluniau hynny dderbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Diolchwyd i swyddogion y maes trafnidiaeth o fewn yr holl Awdurdodau Lleol sydd wedi bod yn cydweithio gyda swyddogion Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd er mwyn cadarnhau'r rhestr o gynlluniau a ddylid eu hariannu ar gyfer 2026/27, gan nodi bydd y rhestr lawn yn cael ei gyflwyni i Aelodau mewn cyfarfod anffurfiol i'r Is-bwyllgor hwn sydd wedi ei raglennu ar gyfer 04 Tachwedd er mwyn rhoi cyfle i Aelodau adolygu'r Rhaglen Trafnidiaeth Rhanbarthol arfaethedig. Cadarnhawyd bydd yr Aelodau yn derbyn cadarnhad o'r prosiectau cyn y cyfarfod anffurfiol er mwyn gallu cynnal trafodaethau gyda swyddogion o fewn eu Hawdurdodau Lleol wrth baratoi at y cyfarfod.. Eglurwyd byddai'r rhestr lawn yn cael ei gyflwyno i Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ei gyfarfod ar 07 Tachwedd.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Trafnidiaeth nad yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi penderfynu dyrannu'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol yn hafal rhwng yr Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, eglurwyd bod y Gronfa yn cael ei ddyrannu yn unol â statws prosiectau o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mewn ymateb i ymholiad os oes amserlen mewn golwg ar gyfer cytuno ar fformiwla gyda'r Ysgrifennydd Cabinet perthnasol i ddyrannu'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol, nododd Prif Weithredwr CBC y Gogledd nad yw hyn wedi cael ei gadarnhau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod gosod fformiwlâu ar gyfer dyrannu o'r Gronfa yn ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru wrth iddynt osod eu cyllidebau. Ymhelaethwyd y gobeithiwyd derbyn cadarnhad o'r cyllidebau mor fuan â phosib gan Lywodraeth Cymru ac ystyriwyd bydd cynnydd i gyllidebau ar gyfer CBC y Gogledd o'i gymharu â'r hyn a ragdybiwyd o fewn y cynllun 5 mlynedd a ddarparwyd gan y Llywodraeth. Cytunwyd i dderbyn diweddariad pellach ar y mater hwn o fewn cyfarfod anffurfiol nesaf yr Is-bwyllgor hwn ar 04 Tachwedd.

Cymharwyd cyllidebau gan nodi bod cyllideb refeniw yn isel iawn o'i gymharu â chyllideb cyfalaf (oddeutu 1.35% o gyfanswm cyllideb cyfalaf). Ymhelaethwyd bod cyfanswm cyllidebau refeniw, unwaith y mae wedi cael ei ddyrannu i'r Awdurdodau Lleol, ddim yn ddigonol ar gyfer cyfarch costau perthnasol yr Awdurdodau. Gofynnwyd os oes modd gofyn am fwy o gyllideb refeniw er mwyn sicrhau bod yr Awdurdodau Lleol yn cyfarch eu gofynion disgwyliedig. Mewn ymateb, cadarnhaodd Prif Weithredwr CBC y Gogledd bod darpariaeth o hyd at 3% o gyllideb refeniw wedi cael ei nodi o fewn y dyraniad cyllidol. Ymhelaethwyd nad oes unrhyw gadarnhad pellach gan Lywodraeth Cymru os oes modd derbyn mwy o gyllideb refeniw ar gyfer materion trafnidiaeth a diogelwch ffordd ar hyn o bryd, gan gadarnhau bydd swyddogion yn trafod hyn ymhellach gyda Llywodraeth Cymru, cyn adrodd yn ôl i'r Is-bwyllgor hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 15:00 a daeth i ben am 15:40.

_____

Cadeirydd

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

15 Rhagfyr 2025

TEITL: Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

AWDUR: Claire Incledon

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Argymell y newidiadau a ganlyn i'r Cylch Gorchwyl i'r CBC:

- Bod y gofyn i gynhyrchu adroddiad cynnydd chwarterol yn cael ei ddisodli gan adroddiadau bob chwe mis.
- Bod gan yr is-bwyllgor y pŵer dirprwyedig i ystyried a gwneud argymhellion i'r CBC ar gyllid trafnidiaeth rhanbarthol ac ymrwymiadau cynlluniau.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Bydd yr is-bwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol a gall argymell unrhyw ddiwygiadau i'r CBC. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r telerau hyn gael eu cymeradwyo gan y CBC. Rhaid i'r Is-bwyllgor weithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fel y'u mabwysiadir gan y CBC ac a nodir yn y Cylch Gorchwyl – y rhain yw'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwyodd y CBC sefydlu'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a'i aelodaeth, gan gynnwys hawliau pleidleisio, i gyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a chynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a pholisïau cysylltiedig ar gyfer y CBC. Er mai tasg i'r Is-bwyllgor ei gwneud yw datblygu polisïau trafnidiaeth, cedwir pŵer cymeradwyo neu adolygu i'r CBC.

4.3 Mae'r swyddogaethau a nodir yn y paragraff dan y pennawd 'Rôl' yn y Cylch Gorchwyl yn cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor o'r CBC. Mae natur strategol rôl yr Is-bwyllgor yn darparu ar gyfer datblygu polisi ar sail ranbarthol. Er mwyn monitro'r cynnydd hwn, mae'r Is-bwyllgor yn darparu adroddiadau rheoli perfformiad i'r CBC a diweddariadau rheolaidd ar reoli adnoddau a datblygu polisi, gan ystyried ei rwymedigaethau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dyletswyddau statudol eraill.

4.5 Mae'r Is-bwyllgor yn cwrdd bob chwarter ac ar hyn o bryd mae'r Cylch Gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol iddo baratoi adroddiad cynnydd i gwmpasu ei berfformiad, ei ganlyniadau a'i ofynion adnoddau. Mae'r cyfnod byr i baratoi'r adroddiadau hyn yn tanseilio'u pwrpas i ddarparu amser

i ganolbwyntio'n ystyrlon ar berfformiad a rheoli adnoddau. Gofynnir i'r aelodau argymell adrodd bob chwe mis fel proses fwy cynaliadwy ar gyfer adrodd ar berfformiad a chynnydd.

4.6 Mae datblygiadau diweddar wrth weithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi cynnwys ffyrdd newydd o weithio drwy foderneiddio grantiau. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu canllawiau ar ddatblygu'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol (RTF) sydd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen o gynlluniau i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ar hyn o bryd rôl yr is-bwyllgor yw gwneud argymhellion ar gynlluniau a pholisïau trafnidiaeth rhanbarthol. Mae gwaith gyda'r is-bwyllgor wrth symud ymlaen â'r flwyddyn drosiannol gyntaf o raglennu grantiau wedi dangos bwlch yn swyddogaethau'r is-bwyllgor. O ganlyniad, gofynnir i'r Aelodau ystyried bod y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiwygio i gynnwys y pŵer i wneud argymhellion i'r CBC ar gyllid, dosbarthu grantiau a rhaglenni arfaethedig i'w hariannu.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth strategol gyda diwygiadau

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad wedi'i baratoi gan y Dirprwy Swyddog Monitro. Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisir.

IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL - CYLCH GORCHWYL

Rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn darparu y bydd y CBC yn gweithredu'r swyddogaethau o ddatblygu polisïau dan adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000.

Mae'r Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth)(Cymru) yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir dan Ran 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, lle mae swyddogaethau datblygu polisïau dan adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000 wedi'u cyflwyno i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

RÔL:

- Gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gymeradwyo ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.
- Gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar bolisïau i'w gweithredu gan yr awdurdodau trafnidiaeth lleol yn ei ardal o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
- Gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyllid trafnidiaeth rhanbarthol ac ymrwymiadau cynlluniau.
- Cynghori a gwneud argymhellion ar wasanaeth trafnidiaeth strategol integredig a chyd-gysylltiedig yn y Gogledd; drwy fonitro ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol..
- Cynllunio, cydlynu a chynghori ar ymatebion rhanbarthol i gynigion Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru.
- Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gynnydd, perfformiad, canlyniadau a gofynion adnoddau.
- Cadw ei gynlluniau a'i bolisïau trafnidiaeth rhanbarthol dan adolygiad ac argymell unrhyw newidiadau os yw'n ystyried ei bod hi'n briodol gwneud hynny.
- Ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sy'n ategol neu'n rhesymol gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaethau hyn

Bydd gan gadeirydd yr is-bwyllgor rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yng nghyswllt gwaith yr Is-bwyllgor a'i rôl ymgynghorol wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Cynghorir yr Is-bwyllgor gan Swyddogion y CBC a'i Swyddogion Statudol neu eu cynrychiolwyr neu ddirprwyon a benodir yn briodol.

Strategol

- cydlynu gweithgarwch Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill fel y byddai dull rhanbarthol strategol yn ei le yn y maes polisi perthnasol;

- darparu cyngor strategol perthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig;

- cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a rhaglenni ariannu;

- gweithredu penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi cyfarwyddyd ac yn comisiynu'r Is-bwyllgorau i ymgymryd â thasgau allweddol.

Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau

- Cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol o fewn y Cylch Gorchwyl hwn;
- Monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol, a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Monitro ac adolygu lefel a defnydd adnoddau gan gynnwys staff a lle mae'n ystyried yn briodol, gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.

Rheoli Adnoddau

- Monitro ac adolygu lefel a defnydd yr adnoddau sydd eu hangen gan gynnwys staff, a gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn pan mae'n ystyried bod hynny'n briodol.

Rheoli Perfformiad

Cydlynu adrodd am berfformiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. **CYFRIFOLDEBAU A'R HYN SYDD I'W GYFLAWNI:**

Cyfathrebu a Chodi Ymwybyddiaeth

Bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn paratoi adroddiad bob chwe mis ar ei waith ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a fydd yn cynnwys:

- Cynnydd ar weithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Rhaglenni a Phrosiectau unigol.
- Perfformiad Ariannol y Pwyllgor
- Datblygiadau sydd ar y gweill.

Bydd yr adroddiad yn ffurfio rhan o brotocol craffu cytûn a bydd ar ffurf a fydd yn hwyluso ei gyflwyno i drefniadau Craffu neu drefniadau llywodraethu eraill fel y pennir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

CWORWM:

Rhaid i ddim llai na 5 aelod fod yn bresennol.

ADOLYGU:

Bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn cynnal hunan-asesiad blynyddol o'i weithgareddau o dan y Cylch Gorchwyl hwn ac yn adrodd unrhyw gasgliadau ac argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac, fel rhan o'r asesiad hwn, bydd yn ystyried a yw'n derbyn cefnogaeth ddigonol a phriodol ai peidio wrth gyflawni ei rôl ac a yw ei gynllun gwaith blynyddol yn hylaw ai peidio.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol a gall argymell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig unrhyw ddiwygiadau i'w Gylch Gorchwyl.

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

15 Rhagfyr 2025

TEITL: Adolygiad hunanasesu blynyddol yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

AWDUR: Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro)

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r hunanasesiad blynyddol o weithgareddau'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Adrodd ar unrhyw gasgliadau ac argymhellion sy'n deillio o'r hunanasesiad i'r CBC.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Cylch Gorchwyl yn darparu y bydd yr is-bwyllgor yn cynnal hunanasesiad blynyddol o'i weithgareddau. Fel rhan o'r asesiad bydd yn ystyried a yw'n derbyn cefnogaeth ddigonol a phriodol i gyflawni ei rôl ac a yw ei gynllun gwaith blynyddol yn hylaw ai peidio.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Dechreuodd yr is-bwyllgor ei waith ym mis Hydref 2024 ac yn y cyfnod byr hwnnw mae wedi adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP), y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r dogfennau cymorth polisi cysylltiedig i'w cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ochr yn ochr â'i waith ffurfiol, mae wedi derbyn diweddariadau a chyflwyniadau rheolaidd ar fentrau a chynigion trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol. Mae aelodaeth yr is-bwyllgor yn cynnwys deiliaid portffolio o bob awdurdod lleol rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb am drafnidiaeth.

4.2 Hyd yma mae'r Aelodau wedi derbyn adroddiad chwarterol yn amlinellu perfformiad yr is-bwyllgor, gan gynnwys y cynnydd ar yr RTP a rhaglenni a datblygiadau cysylltiedig. Er bod yr adroddiadau hyn wedi bod yn eang, nid yw'r Aelodau wedi cael cyfle i asesu gweithgareddau'r is-bwyllgor yn benodol hyd yma.

4.3 Mae'r hunanasesiad wedi'i gynnal fel holiadur sy'n edrych ar waith yr is-bwyllgor yn ei gyfanrwydd, ac a yw'r Aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o'r adeg y maent yn cael eu cyfethol i'r is-bwyllgor a thrwy gydol eu gwaith ar yr is-bwyllgor. Mae'r adborth o'r holiadur yn darparu darlun cadarnhaol cyffredinol (mae crynodeb o'r adborth yn Atodiad 1). Mae'r Aelodau wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol a bod yr is-bwyllgor yn ymgymryd â'i rôl yn briodol, gyda'r Blaengynllun Gwaith, rhaglenni a rhannu gwybodaeth i gyd yn gweithio'n dda.

4.4 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae llawer iawn o waith wedi'i wneud yn ymwneud â'r is-bwyllgor newydd hwn a'r aelodaeth i gefnogi cyflawni trafnidiaeth ranbarthol. Derbynnir bod

lle i wella bob amser ac mae'r holiadur hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ffyrdd gwell o weithio, ac i sicrhau cyflawni'r RTP.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Adborth ar yr holiadur hunanasesu.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

Response	1	2	3	4	5
A gawsoch ddigon o gefnogaeth gan y CBC pan gawsoch eich cyd-ethol i'r is-bwyllgor? / Did you receive sufficient support from the CJC when you were co-opted on to the sub-committee?	Na / No	Do / Yes	Do / Yes	Do / Yes	Do / Yes
Sylwadau / Comments:	Not Really as Cabinet member for Environment, Highways , and Transport I was just ask to join the CJC.	Greater clarity on terms of reference		0	Just joined and the information that I have received assists me greatly 0 for preparing for the meetings.
A gawsoch ddigon o wybodaeth am rôl yr is-bwyllgor a'r CBC i gefnogi eich gwaith ar yr is-bwyllgor? / Did you have sufficient information about the role of the sub-committee & CJC to support your work	Na / No	Do / Yes	Do / Yes	Do / Yes	Do / Yes
Sylwadau / Comments:1	I wasn't given any information about the role.	Yes- improving roles		0	I received all the information I 0 needed
A oes gennych unrhyw anhawster i gael mynediad at agenda'r is-bwyllgor? / Do you have any difficulties in accessing the sub-committee agendas?	Na / No	Na / No	Na / No	Na / No	Na / No
Sylwadau / Comments:2	No problem with the agendas.		0	I have only had one experience when I did not receive the paper being discussed (the proposal from Ambition North Wales to the CJC sub Group regarding the proposed changes to the governance 0 arrangements.	No
A ydych wedi cael unrhyw anhawster i fynychu cyfarfodydd yr is-bwyllgor ar-lein? / Have you had any difficulties in attending sub-committee meetings on-line?	Do / Yes	Na / No	Na / No	Na / No	Na / No
Sylwadau / Comments:3	Some times I have clashes with my Cabinet work for DCC.		0	0	0 No issues
Mae gwaith yr is-bwyllgor wedi'i nodi yn ei Gylch Gorchwyl. A ydych chi'n cytuno bod y Rhaglen Waith Ymlaen a'r eitemau ar yr agenda yn adlewyrchu'n ddigonol y busnes y mae angen i'r is-bwyllgor ei ym	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes
Sylwadau / Comments:4	No problem with this.	This this work is improving		0	Items are timely and in tune with 0 the FWP
A ydych yn ystyried bod rhaglen sesiynau anffurfiol a chyfarfodydd ffurfiol yr is-bwyllgor yn eich hysbysu'n ddigonol am ddatblygiadau trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol? / Do you consider the s	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes
Sylwadau / Comments:5	Yes I feel that a lot of thought goes into the both meetings.	We need to be clear what's informal and what's the formal role		0	I find these meetings informative 0 and very useful
A ydych yn teimlo eich bod yn cael digon o gefnogaeth i gyflawni eich rôl ar yr is-bwyllgor? Os nad ydych, beth allai gael ei wella? / Do you feel adequately supported to carry out your role on the su	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes
Sylwadau / Comments:6	I do now.		0	0	As a new member, I am finding my way and I'm receiving a lot of 0 assistance.
Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn credu bod yr is-bwyllgor wedi perfformio'n dda? Os nad ydych, beth allai gael ei wneud yn well? / Looking back over the last year do you think t	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Ydw / Yes	Na / No
Sylwadau / Comments:7	Yes there has been a lot of work to do in a short time line.	New roles and responsibilities - and improving		0	0 Can't comment
A oes unrhyw sylw yr hoffech ei roi am reolaeth adnoddau neu berfformiad yr is-bwyllgor a fyddai'n helpu Aelodau i gyflawni eu rôl? / Is there any comment you would like to provide about the resource	Nag oes / No	Nag oes / No	Nag oes / No	Nag oes / No	Nag oes / No
Sylwadau / Comments:	Nothing to add realy.		0	0	0 N/A
Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu arsylwadau eraill yr hoffech chi eu rhannu? / Do you any other comments or observations you would like to share?	Not really.	The CJC. Is improving all the times its critical to ensure that all LAs are involved and ensure all cabinet members understand their roles.	Nagoes	No	An interesting sub committee that hopefully will advise on major/minor transport improvements, improvements from the grass roots.

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL
15 Rhagfyr 2025

TEITL: Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol - Cofrestr Ymrwymiadau

AWDUR: Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried Cofrestr Ymrwymiadau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi'r Gofrestr Ymrwymiadau a'r adroddiad blaen.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Sicrhau bod yr Is-bwyllgor yn cael ei hysbysu am yr ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwywyd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) a'r Cynllun Cyflanwi Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) cysylltiedig i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Cydbwyllgor Corfforedig ym mis Gorffennaf 2025. Cymeradwywyd yr RTP a'r RTDP gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025.

4.2. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r weledigaeth ar gyfer trafnidiaeth yng ngogledd Cymru ynghyd â'r polisïau a fydd yn llunio buddsoddiad yn y dyfodol ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth yn y rhanbarth. Mae hefyd yn cynnwys cyfres o ddyheadau ar gyfer y Rhwydweithiau Rheilffyrdd a Ffyrdd Strategol.

4.3 Mae'r RTDP yn cynnwys y cynlluniau trafnidiaeth a'r ymyriadau y dymunai pob awdurdod lleol eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a fydd yn helpu i gyflawni'r weledigaeth a'r polisïau yn y Cynllun hwnnw. Mae'r cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn yr RTDP oll wedi eu halinio â pholisïau yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fel y gellir gweld yn glir pa bolisïau y bydd y cynllun yn eu cefnogi.

5. COFRESTR YMRWYMIADAU

5.1. Yn ogystal â'r polisïau a'r ymrwymiadau hynny o'r RTP a'i ddogfennau cysylltiedig y gellir eu symud ymlaen drwy gynlluniau RTDP, ceir hefyd nifer o ymrwymiadau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol ond nad ydynt o fewn cylch gwaith awdurdodau lleol unigol i'w symud ymlaen fel cynlluniau RTDP. Yr ymrwymiadau yw'r pethau hynny y mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn y sefyllfa orau i'w symud ymlaen neu gefnogi eu cyflwyniad. Mae'r rhain wedi eu cofnodi mewn 'Cofrestr Ymrwymiadau', a ddangosir yn Atodiad 1.

5.3. Mae'r Gofrestr Ymrwymiadau yn ystyried:

- Yr ymrwymiad a wnaed yn yr RTP neu'r Adroddiad Ymgynghori
- Pa bwnc neu bolisi perthnasol o'r RTP y mae'r ymrwymiad yn ymwneud ag ef
- Unrhyw gynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r RTP ac ystyried gwaith i'r dyfodol
- Unrhyw gymorth a allai fod ei angen i weithredu gwaith yn y dyfodol

5.4. Bwriedir i'r Gofrestr Ymrwymiadau fod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru yn unol â'r cynnydd yn erbyn pob un o'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys.

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

6.2. Dylid nodi y gallai fod angen caffael gwasanaethau cymorth arbenigol er mwyn gwneud cynnydd ar rai o'r ymrwymiadau. Rhagwelir y bydd y costau hyn yn cael eu talu o ddyraniad Rheoli Rhaglenni Uchelgais Gogledd Cymru o'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn deillio o'r adroddiad hwn.

ATODIADAU:
Atodiad 1 – Cofrestr Ymrwymiadau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:
Rwy'n cefnogi creu cofrestr ymrwymiadau a fydd yn galluogi'r Is-bwyllgor i olrhain cynnydd y CJC wrth gyflawni ei ddyletswydd statudol mewn perthynas â pholisi trafnidiaeth

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn ymrwymo Uchelgais Gogledd Cymru i wariant ychwanegol ac nid oes gennyf wrthwynebiad i gynnwys yr adroddiad.

CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL - COFRESTR YMRWYMIADAU

Rhif	Ymrwymiad	Pwnc a pholisi perthnasol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (os yn berthnasol)	Cynnydd a Gwaith yn y Dyfodol	Cefnogaeth Angenrheidiol
1	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) yn cydnabod bod darparu'r seilwaith a'r gwasanaethau sy'n galluogi pobl i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy yn bwysig ond ni all fod yn effeithiol oni bai bod pobl yn ymwybodol ohonynt a'r buddion o'u defnyddio. Mae ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu yn hanfodol ac yn gallu cael eu teilwra i ganolbwyntio ar grwpiau defnyddwyr targed penodol, megis trigolion a defnyddwyr hamdden, cymudwyr, pobl ifanc, neu bobl hŷn. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag arbenigwyr cyfathrebu a sefydliadau partner i helpu i sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei gynlluniau.	Ymgysylltu a chyfathrebu CB14	Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ledled y rhanbarth i hyrwyddo negeseuon allweddol. Mae'r cyfleoedd sydd yn yr arfaeth i wneud y mwyaf o'r buddion yn cynnwys cyhoeddi'r rhaglen o gynlluniau ar gyfer cyllid RTF yn 2026/7 (ar y cyd â Llywodraeth Cymru) ac wrth i'r gwaith ddechrau ar gyflawni cynlluniau (ar y cyd ag awdurdodau lleol)	Bydd y dull a amlinellir yn y golofn Ymrwymiad yn gofyn am ymrwymiad ariannol. Drwy ddilyn y dull hwn, datblygir cwmpas manwl i sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei gaffael
2	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â sectorau sydd wedi sôn am gyfleoedd i ymgysylltu ymhellach fel rhan o'u hadborth. Mae'r rhain yn cynnwys: Transport for the North, Sustrans, RNIB Cymru, CNC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Logistics UK, Parc Cenedlaethol Eryri, y Gymdeithas Cerbydau Trydan (EVA), Comisiwn Dylunio Cymru, Cycling UK, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, Bwrdd Teithio Llesol, y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol (CTA)	Ymgysylltu a chyfathrebu	Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i sicrhau cydweithio a rhoi hwb i broffil ein gwaith ym maes trafnidiaeth strategol. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys ymateb i ymgynghoriad LTP Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, cyfarfod â'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol, a chyflwyniadau i sefydliadau fel y Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth, a Chymdeithas y Diwydiant Rheilffyrdd	Ymgysylltu parhaus gan sefydliadau partner
3	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau allweddol i ddysgu gwersi am sut i sicrhau bod ymgynghoriadau mor hygyrch â phosib.	Ymgysylltu a chyfathrebu	Bydd hon yn broses barhaus a fydd yn llywio ymgynghoriadau yn y dyfodol.	

Rhif	Ymrwymiad	Pwnc a pholisi perthnasol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (os yn berthnasol)	Cynnydd a Gwaith yn y Dyfodol	Cefnogaeth Angenrheidiol
4	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru, drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a dull rhanbarthol o gynllunio a chyflawni, yn ceisio sicrhau dull cyson a chydlynol o wella Teithio Llesol ledled y Gogledd. Rydym yn cydnabod bod timau teithio llesol awdurdodau lleol eisoes yn ddarbodus ac yn aml heb adnoddau, a bydd cydlynu rhanbarthol yn helpu i rannu arfer gorau, cyfuno adnoddau, lleihau dibyniaeth ar ymgynghorwyr, a blaenoriaethu lle mae'r anghenion uchaf.	Llywodraethu a ffyrdd o weithio AT7 AT10 AT11	Mae'n bwysig deall ble y gall Uchelgais Gogledd Cymru ychwanegu gwerth a chefnogi'r awdurdodau lleol i gyflawni cynlluniau Teithio Llesol, heb ychwanegu at feichiau gwaith swyddogion awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cael ei benderfynu ar lefel ranbarthol.	Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol
5	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth ochr yn ochr â phartneriaid i hyrwyddo cydweithrediad rhanbarthol a helpu i weithredu'r cynlluniau mewn ffordd gydweithredol, yn unol â ffyrdd o weithio'r Ddeddf Llesiant.	Llywodraethu a ffyrdd o weithio CB14	Mae'n bwysig deall ble y gall Uchelgais Gogledd Cymru ychwanegu gwerth a chefnogi'r awdurdodau lleol, a ble y gallai dull rhanbarthol o weithio arwain at effeithlonrwydd.	Ymgysylltu ag awdurdodau lleol.

Rhif	Ymrwymiad	Pwnc a pholisi perthnasol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (os yn berthnasol)	Cynnydd a Gwaith yn y Dyfodol	Cefnogaeth Angenrheidiol
6	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd cyflymu'r trawsnewid i gerbydau allyriadau sero ac yn cefnogi gweithredu rhanbarthol cydlynol i ategu a gwella'r gwaith parhaus gan awdurdodau lleol. Er bod y Cynllun Cyflawni yn amlinellu datblygu strategaeth fel cam cyntaf, bwriedir i'r cynllun fod yn ddogfen fyw sy'n esblygu ochr yn ochr ag argaeledd cyllid, cynnydd lleol, a pharodrwydd technolegol. Gall cyllid cyfalaf annigonol a chapasiti rhwydwaith ynni lleol fod yn rhwystr i gyflwyno pwyntiau gwefru pellach, ac mae anawsterau ymarferol yn aml yn gysylltiedig â gwefru ar y stryd. Cytunir felly bod angen dull rhanbarthol o geisio mynd i'r afael â'r heriau hyn, i gynnwys Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r sector cyflenwi a dosbarthu ynni. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn helpu i hwyluso'r dull hwn.	Ynni a datgarboneiddio RS7 RS8 RS10 RS11	Mae awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru wedi datblygu strategaethau ar gyfer hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan yn eu hardaloedd. Mae'n bwysig deall ble y gall Uchelgais Gogledd Cymru ychwanegu gwerth a chefnogi'r awdurdodau lleol i ddarparu seilwaith cerbydau trydan ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth heb ychwanegu at feichiau gwaith swyddogion awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cael ei benderfynu ar lefel ranbarthol Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio i adnabod cysylltiadau rhwng y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Strategaeth Ynni Ranbarthol.	Ymgysylltu gan Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill.
7	Er bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod hydrogen yn ateb posib i ddatgarboneiddio'r fflyd fysiau (Polisi PT3) a HGV allyriadau isel (Polisi PF4), bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried y cyfleoedd ehangach gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys fel rhan o Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.	Ynni a datgarboneiddio PT3 PF4	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ceisio gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i symud ymlaen a gwneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd posib.	I'w benderfynu
8	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn archwilio cyfleoedd gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddatblygu canolfan ddosbarthu tanwydd mewn perthynas â Hwb Hydrogen Caergybi ym Mharc Cybi, mewn cydweithrediad â Menter Môn	Ynni a datgarboneiddio PT3 PF4	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ceisio gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i symud ymlaen a gwneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd posib.	Ymgysylltu â Chyngor Ynys Môn a rhanddeiliaid eraill

Rhif	Ymrwymiad	Pwnc a pholisi perthnasol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (os yn berthnasol)	Cynnydd a Gwaith yn y Dyfodol	Cefnogaeth Angenrheidiol
9	Er bod yr A55 yn gefnffordd a reolir gan Lywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith rhagweithiol o adnabod safleoedd a seilwaith ar gyfer gwefru cerbydau nwyddau, yn arbennig ar hyd coridor yr A55 lle mae cyfle gwych i helpu i ddatgarboneiddio HGVs.	Ynni a datgarboneiddio SRN3	Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gefnogi Llywodraeth Cymru ar gynllun Cludo Llwythi a logisteg, Porthladdoedd a Morwrol drafft	Cyswllt â Llywodraeth Cymru
10	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol y Gogledd yn cydweithio i gysylltu'r gwaith cynllunio trafnidiaeth a systemau ynni ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn cydnabod yr ymdrechion sydd eu hangen ar y system drafnidiaeth i symud i ffwrdd o danwydd ffosil hylifol i fod yn llawer mwy dibynnol ar y rhwydwaith trydanol.	Ynni a datgarboneiddio RS7 RS11	Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio i adnabod cysylltiadau rhwng y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Strategaeth Ynni Ranbarthol.	Ymgysylltu gan Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill.
11	Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau ar wella mynediad i'r Porthladd Rhydd a Phorthladd Caergybi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi tasglu newydd i gynnal sefydlogrwydd hirdymor ar gyfer Porthladd Caergybi. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio â'r tasglu i uchafu cyfleoedd ar gyfer symudiadau porthladd a nwyddau cynaliadwy ynghyd â chefnogi cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio.	Porthladdoedd PF1	Mae gwella mynediad i'r Porthladd yn gofyn am ddull partneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, y Porthladd a Trafnidiaeth i Gymru. Mae'n bwysig bod Uchelgais Gogledd Cymru yn rhan o'r trafodaethau hynny	Ymgysylltu â sefydliadau partner
12	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried yn ofalus sut orau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i gefnogi'r porthladdoedd i ddatblygu eu capasiti a'u gallu mewn perthynas â gwell mynediad a datgarboneiddio	Porthladdoedd PF1	Mae'n bwysig deall ble y gall Uchelgais Gogledd Cymru ychwanegu gwerth yma ac ategu'r gwaith gan y Porthladdoedd, gwaith Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid eraill	Ymgysylltu â sefydliadau partner
13	Mae Porthladd Lerpwl hefyd yn cael ei gydnabod am helpu i gefnogi'r economi a symud nwyddau i'r Gogledd ac oddi yno. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y porthladd i helpu i ddeall cyfleoedd ar gyfer gwell cysylltedd.	Porthladdoedd PF1	Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cynghori Llywodraeth Cymru y dylai cynllun Cludo Llwythi a logisteg, Porthladdoedd a Morwrol drafft gydnabod pwysigrwydd Porthladd Lerpwl i ogledd Cymru.	Ymgysylltu â sefydliadau partner

Rhif	Ymrwymiad	Pwnc a pholisi perthnasol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (os yn berthnasol)	Cynnydd a Gwaith yn y Dyfodol	Cefnogaeth Angenrheidiol
14	Mae fforddiadwyedd yn thema drawsbynciol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i wella mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy fforddiadwy.	Mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy	Ymgysylltu â sefydliadau partner i nodi gwelliannau a chefnogi'r gwaith o hyrwyddo a chyfathrebu cynlluniau presennol	Ymgysylltu â sefydliadau partner
15	Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd sy'n gyfrifol am y ddwy bont dros y Fenai, sef ffyrdd yr A5, A483, A494, ac A55. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi dyheadau ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng ngogledd Cymru.	Mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy SRN4 SRN5	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei gynnwys fel rhanddeiliad ar unrhyw waith i fwrw ymlaen â gwelliannau ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol	Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru
16	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni'r rhwydwaith gorau posibl i drigolion gogledd Cymru a ddylai ddiwallu anghenion cymunedau. Cydnabyddir y bydd angen i Fentrau Bach a Chanolig (SMEs) a gweithredwyr llai fod yn rhan o'r datrysiad ac ni ddylid eu diystyru gyda'r model masnachfraint newydd. Rydym hefyd yn cydnabod bod y busnesau bach a chanolig / gweithredwyr llai yn chwarae swyddogaeth bwysig wrth ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i awdurdodau lleol.	Masnachfreinio bysiau PT1	Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i sicrhau nad yw masnachfreinio yn eithrio mentrau bach a chanolig lleol.	Ymgysylltu â sefydliadau partner
17	Mae astudiaeth wedi'i chynnal ledled y Gogledd i ystyried camau y gellid eu rhoi ar waith i wella blaenoriaeth bysiau ac mae awdurdodau lleol yn edrych ymlaen at weithio gydag Uchelgais Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn i'w weithredu, yn amodol ar gyllid.	Isadeiledd bysiau PT6	Trafnidiaeth Cymru sy'n arwain ar waith datblygu, gyda chyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i'w roi ar waith. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda'r partneriaid hyn i'w cynnwys fel rhanddeiliaid wrth i gynlluniau gael eu datblygu.	Ymgysylltu â sefydliadau partner

Rhif	Ymrwymiad	Pwnc a pholisi perthnasol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (os yn berthnasol)	Cynnydd a Gwaith yn y Dyfodol	Cefnogaeth Angenrheidiol
18	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ymgysylltu â Thrafnidiaeth Cymru, gan adnabod lleoliadau lle mae cefnogaeth leol am orsaf newydd. Ar hyn o bryd, nid yw gorsaf newydd yn Maes Glas, Treffynnon wedi'i adnabod fel blaenoriaeth ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, ond byddwn yn parhau i helpu i adnabod lle mae cefnogaeth leol am orsaf newydd.	Gorsafoedd rheilffordd	Cyswllt â Thrafnidiaeth Cymru ac Awdurdodau Lleol	Ymgysylltu â sefydliadau partner
19	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i adolygu a gwella'r cynnig Fflecsi yng ngogledd Cymru ymhellach i helpu i sicrhau bod trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw yn diwallu anghenion cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus arall.	Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Gymuned a'r Galw PT11	Gweithio gydag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru	Ymgysylltu â sefydliadau partner
20	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i helpu i gyfrannu at gynllun bach Llwybr Newydd y trydydd sector, sy'n ceisio diwallu anghenion cymunedau lleol a darparu buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach, ar lefel ranbarthol a lleol. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod y rôl bwysig y gall trafnidiaeth dan arweiniad y gymuned ei chwarae wrth ddiwallu anghenion cymunedau gwledig a chymunedau sydd heb eu gwasanaethu. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar fasnachfreinio bysiau a threfniadau cyllido i helpu i sicrhau bod darparwyr trafnidiaeth gymunedol yn parhau i allu cael gafael ar gyllid.	Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Gymuned a'r Galw	Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cyfarfod â'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol i ddatblygu perthynas a nodau cyffredin	Ymgysylltu pellach ag Uchelgais Gogledd Cymru

Rhif	Ymrwymiad	Pwnc a pholisi perthnasol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (os yn berthnasol)	Cynnydd a Gwaith yn y Dyfodol	Cefnogaeth Angenrheidiol
21	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol yn adnabod, datblygu a chyflawni ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd sy'n cymhwyso'r dull 'system ddiogel' i anelu at ddim marwolaethau ar y rhwydwaith ffyrdd. Bydd ymyriadau yn cyd-fynd â phum piler yr amgylchedd ffyrdd sy'n lleihau'r risg: Defnyddwyr / Ymddygiadau Ffyrdd Diogel; Cyflymderau diogel; Ffyrdd Diogel; Cerbydau Diogel; a'r Ymateb Ôl-wrthdrawiad. Bydd cynlluniau hyfforddi ac addysgu Diogelwch ar y Ffyrdd yn cael eu blaenoriaethu i gefnogi'r dull hwn	Diogelwch ffyrdd RS3 RS4	Mae'n bwysig deall ble y gall Uchelgais Gogledd Cymru ychwanegu gwerth a chefnogi'r awdurdodau lleol, a ble y gallai dull rhanbarthol o weithio arwain at wella effeithlonrwydd.	Ymgysylltu ag awdurdodau lleol.
22	Cynhelir ymchwil i gyflwyno Contract Gwasanaethau Cyffredinol yn un o'r ardaloedd awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, gyda golwg ar gyflwyno'n ehangach ar draws y rhanbarth pe byddai'n llwyddiannus.	Galluogi Newidiadau i Ymddygiad CB9	Y cam cyntaf yn y broses hon fydd cynnull cyfarfod o randdeiliaid perthnasol i fesur diddordeb.	Efallai y bydd angen ymrwymiad ariannol i gaffael cymorth arbenigol
23	Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y diwydiant twristiaeth ar yr arfordir i adnabod mesurau fydd yn cefnogi symudiad at ddulliau cynaliadwy i gael mynediad at atyniadau poblogaidd, tra'n parhau i sicrhau bod gogledd Cymru yn parhau i fod yn gyrchfan o ddewis ar gyfer gwyliau a theithiau dydd.	Galluogi Newidiadau i Ymddygiad CB15	Y cam cyntaf yn y broses hon fydd cynnull cyfarfod o randdeiliaid perthnasol i fesur diddordeb a nodi'r camau nesaf.	Efallai y bydd angen ymrwymiad ariannol i gaffael cymorth arbenigol